

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 7 Mehefin 2022 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, Barry Mellor, Aelod Arweiniol Amgylchedd a Thrafnidiaeth; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio, Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Ellie Chard, Karen Edwards, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Merfyn Parry a Gareth Sandilands

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Cyllid ac Eiddo (SG), Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad (EJ); Cyd-bennaeth Dros Dro Gwella Busnes a Moderneiddio (NK); Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IM); Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd (GR); Cydlynnydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd (SE) a'r Gweinyddwyr Pwyllgor (KEJ & RTJ [Gweddarlledwr])

CROESO

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod cyntaf y Cabinet o dymor newydd y Cyngor.

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2022.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

5 ADRODDIAD HUNANASESU PERFFORMIAD Y CYNGOR 2021 I 2022

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad a Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor 2021 i 2022 i'r Cabinet eu hystyried cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ym mis Gorffennaf 2022. Cynigiodd welliant i argymhelliad yr adroddiad, bod y Cabinet yn cadarnhau'r adroddiad fel adlewyrchiad cywir o Berfformiad y Cyngor yn ystod 2021/22 ac argymhell ei gymeradwyo gan y Cyngor.

Darparodd yr Hunanasesiad Perfformiad ddadansoddiad diwedd blwyddyn o gynnydd a heriau yn erbyn amcanion perfformiad allweddol (h.y. Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol) ac yn y saith maes llywodraethu ynghyd â naratif ar weithgarwch cynghorau i gefnogi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Hon oedd y ddogfen statudol ofynnol gyntaf a ysgrifennwyd mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac roedd yn bodloni gofynion y Cyngor o dan nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth.

Arweiniodd y Cyd-Bennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Dros Dro ac Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad yr aelodau drwy fanylion yr adroddiad a oedd yn cynnwys tri atodiad. Roedd yn cyflwyno Crynodeb Gweithredol (Atodiad I) yn amlygu perfformiad yn erbyn amcanion a'r saith maes llywodraethu ac yn edrych ymlaen at heriau'r dyfodol a meysydd i'w gwella; yr Adroddiad Diweddar Perfformiad chwarterol rheolaidd (Atodiad II) ar gyfer Ionawr - Mawrth 2022, a oedd yn cyfuno â'r Crynodeb Gweithredol a'r tri Adroddiad Diweddar blaenorol yn ffurfio'r Hunanasesiad ar gyfer 2021 i 2022; a Chrynodeb Perfformiad o'r Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022 (Atodiad III). Amlygwyd adroddiadau rheolaidd fel un o ofynion monitro hanfodol o'r fframwaith rheoli perfformiad. Amlygodd swyddogion nifer o negeseuon allweddol yn deillio o'r Crynodeb Gweithredol mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth; darparwyd trosolwg o bob un o'r amcanion perfformiad, a hefyd adroddwyd yn erbyn pob un o'r meysydd llywodraethu.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad cynhwysfawr a gwerthusiad o berfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol. Cofnododd y Cynghorydd Gill German ei gwerthfawrogiad o'r Crynodeb Gweithredol a oedd yn arbennig o ddefnyddiol iddi wrth amlygu'r meysydd perfformiad a llywio'r Cynllun Corfforaethol newydd wrth symud ymlaen. Ategodd y Cynghorydd Julie Matthews y teimladau hynny ac roedd yn falch o nodi'r cyfeiriadau at Gydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro.

Canolbwyntiwyd ar y prif faterion trafod a ganlyn -

- Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne yn awyddus i weld adroddiadau cynnydd yn y dyfodol ar ddarpariaeth teithio llesol yn y sir ac eglurodd swyddogion fod yr adroddiad yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol a chyfeiriodd at ei gynnwys – roedd y Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w gadarnhau ym mis Hydref.
- Roedd Tai Gofal Ychwanegol Awel y Dyffryn (Dinbych) wedi'u canmol yn fawr ond roedd gwaith i symud Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun yn ei flaen

wedi wynebu oedi sylweddol – disgwylir y byddai gwaith yn dechrau ar y safle ddiwedd Mehefin/dechrau Gorffennaf a byddai'r aelodau'n parhau i gael eu diweddaru fel byddai'r datblygiad yn dod yn ei flaen.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bobby Feeley, amlygodd yr Arweinydd bwysigrwydd Newid Hinsawdd fel mater a oedd yn eistedd yn dda o fewn portffolio'r Cynghorydd Barry Mellor ynghyd â thrafnidiaeth a rheoli gwastraff i yrru'r agenda honno yn ei blaen, a byddai'n rhan enfawr o waith y Cabinet yn y dyfodol gan gynnwys cyrraedd targed sero carbon net y Cyngor.
- Gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield am fanylion ôl troed carbon datblygiadau newydd/prosiectau seilwaith gan ddatblygwyr a'u cynnwys mewn adroddiadau pwyllgor yn y dyfodol a chadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'n mynd i'r afael â'r mater yn uniongyrchol gyda'r Cynghorydd Barry Mellor a swyddogion perthnasol. Ychwanegodd y Cynghorydd Win Mullen-James fod Cyngor Tref y Rhyl yn gofyn am ddatganiad ar effaith y datblygiad ar newid hinsawdd ar gyfer pob cais cynllunio ac y byddai'n edrych i ddod â'r agwedd honno ymlaen yn Sir Ddinbych.

Ailddatganodd y Cynghorydd Ellis ei gwelliant arfaethedig i argymhellion yr adroddiad, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Gill German, ac o'i roi i bleidlais –

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cadarnhau bod yr Adroddiad Hunanasesu Perfformiad yn adlewyrchiad cywir o Berfformiad y Cyngor yn ystod 2021/22 ac argymhell bod y Cyngor yn ei gymeradwyo.

6 MABWYSIADU FFRAMWAITH ECONOMAIDD RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan yr adroddiad a Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREF) i'w mabwysiadu.

Roedd NWREF yn hyrwyddo datblygiad economaidd cydweithredol ar draws y rhanbarth trwy set o flaenoriaethau a rennir ac y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni ymhlith partneriaid rhanbarthol. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (Gweithio Gyda'n Gilydd i sicrhau Economi Gogledd Cymru gryfach) yn nodi sut y byddai Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a phartneriaid eraill yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cyflawni yn erbyn un fframwaith cyffredin.

Darparodd Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad rywfaint o gefndir ynghylch y cydweithio ac ymgysylltu wedi'i dargedu ag ystod o randdeiliaid allweddol wrth ddylunio'r ymagwedd at ddatblygu economaidd a blaenoriaethau a rennir ar gyfer y rhanbarth. Roedd NWREF yn adeiladu ar lawer o'r gwaith da presennol a byddai'n gorwedd uwchlaw llawer o'r cynlluniau a'r strategaethau sydd eisoes ar waith neu i'w datblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Roedd yn nodi ffordd wahanol o edrych ar dwf economaidd gyda dull cyfannol yn seiliedig ar egwyddorion Economi Llesiant â thair thema graidd (1) Llesiant Cymdeithasol a Chymunedol, (2) Economi Carbon ac Allyriadau Isel, a (3) yr Economi Profiad, gyda nifer o flaenoriaethau wedi'u strwythuro o amgylch y themâu hynny. Roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) wedi cyd-gynhyrchu'r ddogfen ac wedi argymhell y dylai pob un o'r chwe

awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ei chymeradwyo. Byddai'r fframwaith lefel uchel yn destun gwaith pellach a datblygiad ar ôl ei fabwysiadu.

Croesawodd y Cabinet NWREF a chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid ar draws y rhanbarth a'r manteision a fyddai'n dod i'r ardal yn ei sgil. Trafododd y Cabinet y fframwaith gyda swyddogion, gan amlygu nifer o feysydd pwysig yn y ddogfen a materion i'w datblygu ymhellach –

- roedd cofrestriad myfyrwyr ar gyrsiau addysg uwch yng Ngogledd Cymru yn 13% (yn erbyn poblogaeth o 22%) ac roedd angen cynyddu'r ganran honno i adlewyrchu'r boblogaeth ranbarthol yn well a chadw oedolion ifanc yn yr ardal.
- roedd partneriaid presennol yn cynnwys colegau addysg uwch ac roedd y fframwaith yn cynnwys llawer o gyfeiriadau at ddatblygu cyfleoedd i bobl ifanc o ran swyddi gwell mewn sectorau sy'n bwysig i'r rhanbarth
- tra bod 37% o ynni adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu yng Ngogledd Cymru, dim ond 8% oedd mewn perchnogaeth leol, ac roedd angen mwy o fanylion ynghylch sut y gellid cynyddu'r ganran honno i sicrhau bod buddion cynlluniau o'r fath yn cael eu cadw yn y rhanbarth
- pwysleisiwyd sicrhau'r set sgiliau cywir yn y rhanbarth ac awgrymwyd y byddai cyfranogiad pellach gan ysgolion yn fuddiol yn hynny o beth, yn enwedig o ystyried y cyfleoedd a gyflwynir gyda'r cwricwlwm newydd i deilwra'r cynnig yn lleol i'r hyn sy'n berthnasol i bobl ifanc yr ardal, cyn ac yn arwain i fyny at amgylchedd y coleg. Nodwyd bod y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi'i halinio'n agos â'r NWEAB ac y gellid gwneud gwaith i gysylltu'r elfennau hynny ymhellach â'r fframwaith.
- roedd llawer o wahanol strategaethau a chynlluniau ar waith eisoes a byddai NWREF yn eistedd uwchben y rheini i ddarparu cyd-destun strategol a nodi unrhyw fylchau neu wendidau a allai fod yn y rhanbarth gyda'r bwriad o fynd i'r afael â hwy.
- roedd datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig yn fater allweddol i siroedd y rhanbarth ac roedd yn bwysig bod yr economi wledig yn datblygu gyda chysylltiadau trafndiaeth priodol i ardaloedd llai hygyrch a busnes/tai addas. Roedd y fframwaith yn darparu persbectif cyffwrdd o'r economi ac yn cynnwys trafndiaeth, seilwaith digidol a theithio llesol a fyddai'n rhan o drafodaethau yn y dyfodol.
- Dylid cefnogi datblygiad cwmnïau cynhenid yn Sir Ddinbych i lenwi unrhyw fylchau a nodwyd yn y gadwyn gyflenwi gyda golwg ar adeiladu'r economi Cymuned a Lles yn y sir. Cadarnhawyd bod data gwaelodlin rhanbarthol a lleol ar gael i'w ddefnyddio i nodi rhai o'r bylchau hynny a fyddai'n rhan o'r gwaith ar gyfer y rhanbarth wrth symud ymlaen.
- Roedd y ddogfen yn cynnwys cyfeiriad at weithio mewn partneriaeth i wella cysylltiadau trafndiaeth a darparu dewis arall yn lle dibynnu ar geir a symud i ddulliau trafndiaeth carbon isel. Roedd sicrhau trafndiaeth carbon isel hefyd yn ffocws i'r Bwrdd Uchelgais ac roedd gwella cysylltiadau rheilffordd a thrydaneiddio wedi'i gydnabod fel mater allweddol. Cyfeiriwyd hefyd at y papur sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru ar drafndiaeth gyhoeddus a fyddai'n bwydo i mewn i'r fframwaith.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cyngorydd Gareth Sandilands, rhoddwyd diweddariad ar y broses recriwtio Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd - Amgylchedd

ac Economi a'r gobaith oedd y gallai'r Cyngor wneud penodiad ar 5 Gorffennaf. O ran sicrhau bod y fframwaith yn gweithio i Sir Ddinbych, roedd yn bwysig i Sir Ddinbych chwarae ei rhan yn y bartneriaeth a gwneud y mwyaf o gyfleoedd a buddion i'r sir. Roedd Strategaeth Uchelgais Cymunedol Economaidd Sir Ddinbych yn ei lle tan 2023 a byddai'n briodol gweithio gydag aelodau i adolygu'r strategaeth honno a symud ymlaen o dan y Cynllun Corfforaethol newydd. Roedd gan y Cyngor dîm lleol rhagweithiol a roddodd lawer o gefnogaeth i fusnesau yn y sir a fyddai'n cydgyssylltu ac yn cyd-fynd â thrafodaethau rhanbarthol.

Daeth yr Arweinydd â'r ddadl i ben a diolchodd i'r aelodau am eu cyfraniadau a'r pwyntiau pwysig a godwyd a fyddai'n cael eu datblygu gan swyddogion yn y dyfodol ac yn cael sylw fel rhan o'r fframwaith wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD bod *Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cyngor.*

[Ar y pwynt hwn (11.10 am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.]

7 ADRODDIAD CYLLID (SEFYLLFA ARIANNOL DERFYNOL 2021/22)

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad ar sefyllfa refeniw derfynol 2020/21 a'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau.

Tywysodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo yr aelodau drwy fanylion yr adroddiad a'r atodiadau fel yr amlinellir yn gryno isod –

- Yn gryno, y sefyllfa derfynol ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys tanwariant ysgolion o £6.778m) oedd tanwariant o £9.177m.
- Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd untro yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2021/22 o £60m (cyfran CSDd £1.994m) gyda chais i ddefnyddio £10m (cyfran CSDd £0.332m) i ariannu gwelliannau i drefniadau teithio ar gyfer gweithwyr gofal gan gynnwys cerbydau trydan; byddai'r £1.662m sy'n weddill yn cael ei roi yn y gronfa liniaru'r gyllideb wrth gefn i helpu'r Cyngor i ddelio â phwysau chwyddiant
- manylu ar arbedion gwasanaeth cyllideb 2021/22 a'r arbedion effeithlonrwydd gofynnol (£2.666m)
- Tynnwyd sylw at effaith y coronafeirws a'r cyllid grant sylweddol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru – derbyniwyd £19m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyda'r rhagdybiaeth y byddai'r hawliadau grant terfynol (£2.7m) yn cael eu talu yn llawn
- byddai balans ysgol cyffredinol o £12.448m yn cael ei ddwyn ymlaen (cynnydd o £6.778m ar falansau diffyg a ddygwyd ymlaen i 2021/22 o £5.670m) gyda llawer o'r cyllid hwnnw i'w ddefnyddio yn 2022/23 i adfer o effaith Covid
- roedd elfennau allweddol o'r tanwariant mewn cyllidebau corfforaethol (£1.964m) yn ymwneud yn bennaf â chyllidebau wrth gefn a gedwir yn ganolog ar gyfer gorwariant gwasanaethau, setliadau cyflog, costau ynni a Threthi Busnes
- gan ystyried sefyllfa gyffredinol y gwasanaethau a'r cyllid corfforaethol oedd ar gael, cynigiwyd bod y gwasanaethau yn dwyn ymlaen y tanwariant net a

restrwyd fel balansau gwasanaethau ymrwymedig er mwyn helpu i gyflawni strategaeth cyllideb 2022/23 a bodloni ymrwymadau oedd yn bodoli eisoes

- disgwyliwyd y byddai angen cronfeydd wrth gefn cyllideb sylfaenol nas defnyddiwyd yn 2021/22 i ariannu effaith cynnydd mewn costau chwyddiant yn 2022/23
- darparwyd manylion llawn y trosglwyddiadau i mewn i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ac allan ohonynt.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- Croesawodd y Cynghorydd Gill German y sefyllfa ar gyllidebau ysgolion a chymorth amserol gan Lywodraeth Cymru gyda chyllid ar gael i fynd i'r afael ag effaith y pandemig a'r heriau sydd o'n blaenau a thalodd deyrnged i'r ffordd yr oedd ysgolion wedi ymateb yn ystod y pandemig. Cydnabu hefyd fod teuluoedd yn cael trafferth gyda'r cynnydd mewn costau byw a byddai cymorth cyllidol i weithwyr y blynyddoedd cynnar a chysylltiadau teuluol yn hanfodol i liniaru'r effaith ar blant.
- Bu peth trafodaeth ar reolaeth ariannol ysgolion a rhagwelwyd y byddai cyllidebau ysgolion yn lleihau'n sylweddol dros y tair blynedd nesaf wrth i'r cyllid gael ei wario i sicrhau bod ysgolion a disgyblion yn adfer o'r pandemig, ac amlygwyd y cydweithio agos rhwng ysgolion, timau addysg a chyllid i sicrhau bod gan ysgolion gynlluniau ariannol priodol ar waith a chyllidebau ysgolion cynaliadwy wrth symud ymlaen. Roedd cymorth penodol wedi'i ddarparu'n flaenorol i ysgolion mewn trafferthion ariannol ac y byddai cymorth yn parhau i ysgolion sy'n wynebu pwysau ariannol er mwyn sicrhau cynllun adfer cadarn.
- O ran y defnydd posibl o gronfeydd wrth gefn a balansau ar gyfer gwariant cyfalaf, eglurwyd eu bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o broses y gyllideb. Defnyddiwyd y gronfa lliniaru cyllideb wrth gefn i gefnogi cyllidebu a gellid ei defnyddio at ddibenion cyfalaf pe bai'r Cyngor yn penderfynu ar hynny. Roedd y rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf wedi elwa o £1.6m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a byddai'r adroddiad cyllid i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cabinet yn cynnwys crynodeb o'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ac argymhelliad y dylid rhoi £1.6m yn y gronfa wrth gefn ar gyfer y rhaglen gyfalaf i helpu i ariannu pwysau sy'n deillio o'r broses dendro oherwydd y cynnydd sylweddol yng nghostau nwyddau a deunyddiau.
- Fel rhan o broses y gyllideb yn 2022/23 roedd rhywfaint o arian refeniw wedi'i glustnodi i ariannu benthyca a galluogi cyflawni rhai o'r prosiectau a nodwyd fel rhan o'r ymarfer sganio'r gorwel gyda rhagor o waith i'w wneud er mwyn darparu proses o adolygu. a chymeradwyo'r prosiectau hynny.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts at adferiad ôl-Covid a gofynnodd am eglurder ar ddyfodol adeiladau a deiliadaeth Sir Ddinbych ynghyd â'r effaith ar gyllid a thynnodd sylw at effaith adeiladau gwag ar yr economi leol. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd adroddodd swyddogion ar y Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio a'r cam presennol o ganiatáu i staff benderfynu ar eu patrymau gwaith eu hunain yn amodol ar ddiwallu anghenion busnes y Cyngor. Byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro dros y 6/8 mis nesaf gyda bwriad i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen o ran datblygu strategaeth ar gyfer rheoli asedau a allai gynnwys defnyddiau amgen ar gyfer adeiladau neu gydweithio a rhannu gofod swyddfa. Cafwyd trafodaeth ar adferiad ôl-Covid a'r gweithle a'r manteision a'r anfanteision posibl pe bai staff yn dychwelyd i adeiladau swyddfa yn erbyn

gweithio gartref a'r effaith ar les, economïau lleol ac ôl troed carbon y patrymau gwaith hynny yn y dyfodol. Rhoddwyd sicrwydd bod effeithlonrwydd ynni adeiladau'r cyngor yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses honno. Nodwyd y byddai'r dull o benderfynu ar ffyrdd o weithio yn y dyfodol yn seiliedig ar anghenion staff, gan ystyried cydbwysedd gwaith/bywyd a darparu gwasanaethau, a byddai unrhyw arbedion posibl yn deillio o ffyrdd o weithio yn y dyfodol yn eilradd. Nodwyd hefyd bod ymagwedd Sir Ddinbych yn debyg i awdurdodau lleol eraill a bod gwaith yn mynd rhagddo i drafod y dulliau hynny ymhellach a rhannu arfer gorau, a gellid rhannu mwy o wybodaeth yn hynny o beth ag aelodau wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) Nodi sefyllfa refeniw derfynol 2021/2022;
- (b) Cymeradwyo y driniaeth arfaethedig i gronfeydd wrth gefn a balansau fel a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad a manylwyd yn Atodiadau 1, 2 a 3, a
- (c) nodi manylion y trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd fel y nodwyd yn Atodiad 4.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol –

- yr Aelod Arweiniol ar gyfer eitem Dyfodol Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru a drefnwyd ar gyfer mis Mehefin oedd y Cynghorydd Julie Matthews
- Cronfa Codi'r Gwastad: Etholaeth Gorllewin Clwyd – eitem ychwanegol ar gyfer Mehefin

Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraidaidd i ganfod pryd y byddai adroddiad ar Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Band B) Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet.

PENDERFYNWYD nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 pm.